COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 14cg o IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Mel Goch ap Meirion, Rory Francis
Bedwyr Gwilym, Kevin Baldwin
Ronwen D Roberts a Will G Roberts

9455/01/16 YMDDIHEURIADAU: Annwen Daniels and Mandy Williams-Davies

9456/01/16 DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Ddatgan Diddordeb

9457/01/16 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cadeirydd ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'r Cynghorwyr.
Cafwyd gwybodaeth parthed Cyngor Gwynedd Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi-ddosbarth, Blaenau Ffestiniog) (Gwaharddiadau Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2016.
Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu gwneud Gorchymyn bydd yn gwahardd unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd fynd mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd y darn hwnnw o'r Ffordd Ddi-ddosbarth, Blaenau Ffestiniog o'i gyffordd gyda'r Stryd Fawr gan deithio mewn cyfeiriad gogledd dwyreiniol am bellter o oddeutu 60 metr hyd at Bryn yr Haf.
Mae angen y Gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch ac er galluogi i Beirianwyr BT Openreach gael mynediad a gweithio o fewn strwythur tanddaearol.
Bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo a'r Cynghorydd Gareth W Jones a'u deulu ar eu colled ddiweddar

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9458/01/16 Y DREF WERDD

Yn anffodus ni fu'n bosib i Mr Gwydion ap Wynn, Rheolydd Prosiect Y Dref Werdd roi diweddariad

PENDERFYNIAD: I ail drefnu at gyfarfod mis Mawrth.

9459/01/16 MATERION YR HEDDLU / FFORWM HEDDLU

Cafwyd adroddiad bod y Rhingyll Iwan Jones yn fodlon ymweld â busnesau lleol er mwyn egluro iddynt y buddiant o gael camerâu cylch cyfun ar eu hadeilad ac na fydd unrhyw ddata personol yn cael ei yrru gyda lluniau o'r camerâu.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i'r Cadeirydd, yr heddlu a Kevin Jones gwrdd am 2.30 dydd Gwener 22ain o Ionawr 2016 i fynd o amgylch busnesau lleol.

9460/01/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 11eg RHAGFYR 2015

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Rory Francis yn eilio

9461/01/16 CYFRIFON I'W TALU

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	60.00	Rhif Siec.	002180
Nefyn Cleaning Services (Gwaith amrywiol)	£	552.00	Rhif Siec.	002181
G Thomas (Man Waith)	£	252.00	Rhif Siec.	002182
Blaenau Bendigedig (Coed Nadolig)	£	195.00	Rhif Siec.	002183
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002185
SLCC (Aelodaeth)	£	187.00	Rhif Siec.	002189
John Farrington (Tybiau a Gardd Encil)	£	243.50	Rhif Siec.	002190
G L Jones (Cae Bryn Coed)	£	720.65	Rhif Siec.	002191
G L Jones (Cae Penbryn)	£	1511.22	Rhif Siec.	002192
Cyngor Gwynedd (Coeden Llan Ffestiniog)	£	740.40	Rhif Siec.	002193
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
TalkTalk (Ffôn)	£	29.30	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9462/01/16 ARIAN I MEWN

Y Dref Werdd (Llogi ystafell)	£	301.00
Anheddau Cyf (Llogi ystafell)	£	50.00

9463/01/16 CEISIADAU ARIANNOL

Cyngor ar Bopeth	£	200.00	Rhif Siec.	002194

9464/01/16 IS-BWYLLGOR CYFRAITH A THREFN
Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Cyfraith a Threfn
Nos Iau 7fed Ionawr 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR CYFRAITH A THREFN
NOS IAU 7fed IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Annwen Daniels
Rory Francis
Will G Roberts
Mr Kevin Jones

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Bedwyr Gwilym

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

Cynghorydd Will G Roberts - Cadeirydd

1. **Ethol Cadeirydd**
Etholwyd y Cynghorydd Will G Roberts yn Gadeirydd yr Is Bwyllgor

2. **Camerâu Cylch Cyfun**
Bu i'r cyfarfod drafod gosod cytundeb cynnal a chadw ar gyfer y camerâu o £432 y flwyddyn ar sail arolygiad misol.
Argymell - I dderbyn y pris**.**

Bu i'r cyfarfod drafod newid i sustem ble bydd mynediad i'r camerâu o swyddfa'r Cyngor. Golygir hyn bod Clerc y Dref yn gallu cadw llygaid bod pob camera yn gweithio'n iawn a hefyd bydd yn sicrhau bod ffurflenni gwarchod data yn cael eu cwblhau bob tro bydd mynediad i'r camerâu.
Argymell - I dderbyn pris o £1,152.00 ar gyfer gosod y sustem yn y swyddfa ac i drefnu bod y Cadeirydd ac aelod o'r heddlu yn ymweld â phob busnes sydd gyda chamerâu'r Cyngor Tref wedi eu gosod arnynt i egluro na fydd unrhyw un yn gallu gweld unrhyw ddata cyfrinachol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Rory Francis yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio.

9465/01/16 IS-BWYLLGOR MATERION PARCIO A THRAFNIDIAETH
Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Materion Parcio a Thrafnidiaeth
Nos Iau 7fed Ionawr 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MATERION PARCIO A THRAFNIDIAETH
NOS IAU 7fed IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorydd:
Erwyn Jones	Bedwyr Gwilym
Mel Goch ap Meirion	
Annwen Daniels	
Rory Francis	
Will G Roberts	

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

Cynghorydd Will G Roberts - Cadeirydd

1. **Ethol Cadeirydd**
   Etholwyd y Cynghorydd Will G Roberts yn Gadeirydd yr Is Bwyllgor

2. **Gorchmynion Parcio**
   Yn dilyn cyfarfod gyda Mr Iolo Tegid o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru dydd Mercher 16eg o Ragfyr 2015 bu i'r Cyngor dderbyn argymhellion yr Asiantaeth ar gyfer gosod llinellau melyn dwbl a chyfyngu ar yr amser arhosiad.
   Argymell - I dderbyn argymhellion Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

9466/01/16 IS-BWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Mwynderau
Nos Iau 7fed Ionawr 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 7fed IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.30 O'R GLOCH

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorydd:
Erwyn Jones	Bedwyr Gwilym
Mel Goch ap Meirion	
Annwen Daniels	
Rory Francis	
Will G Roberts	

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

Cynghorydd Will G Roberts - Cadeirydd

1. **Arolwg misol y Caeau Chwarae**
   Roedd arolwg misol yr archwiliwr i law.
   Argymell: I Drefnu i ail osod y bin ar gae chwarae Manod ac i osod bin newydd ar y Parc Sglefrio. Tra bydd y gwaith uchod yn cael ei wneud i ail osod y bin a'r arwydd ger y man golygfa.

2. **Parc Sglefrio**
   Yn parhau i aros i'r gwaith gael ei gwblhau ar y goleuadau.
   Cafwyd gwybodaeth bod yr heddlu yn gefnogol iawn i'r syniad o osod lloches ieuenctid ar y Parc Sglefrio ond byddent hoffi iddo gael ei leoli ar y ffens sydd hefyd yn ffin i'r rhandiroedd er mwyn lleihau sŵn. Hwyrach bod lloches ieuenctid ar gael gan yr heddlu ond os ddim byddent yn gallu ein cyfeirio at grantiau tuag at weithgareddau ieuenctid.
   Cafwyd gwybodaeth hefyd bod hwyrach arian ar gael tuag at weithgareddau ieuenctid gan y Gwasanaeth Tân drwy eu hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon o gynnau tan creithio a fu yn broblem iddynt y llynedd.
   Argymell: I gysylltu eto a Chyngor Gwynedd I edrych beth yw'r oediad ynglŷn â'r goleuadau. I groesawu'r cynnig o loches ieuenctid gan yr heddlu ac i gyd weithio gyda'r heddlu a'r gwasanaeth tân i gael arian tuag at wasanaethau ieuenctid i'r Parc Sglefrio.

3. **Prydles yr Angry Scones**
   Bu i'r Cyngor ohirio gwneud penderfyniad ar roi estyniad ar y brydles nes derbynnir atebion i'r cwestiynau canlynol gan yr Angry Scones
   · Gofyn a ydynt yn cydymffurfio ar amodau presennol e.e. defnydd gyda'r hwyr, a chadarnhau tir sydd wedi ei ddefnyddio - yw'n cydymffurfio gyda'r les.
   · Canfod eu barn am newid y telerau, sef i osod ffens, sgrin neu reilen i warchod defnyddwyr rhag ceir yn gadael y trac rasio ar gyflymder.
   I'r dyddiad nid oes ateb wedi dod gan yr Angry Scones Racing Team.
   Argymell: I ysgrifennu atynt unwaith eto yn egluro i'w prydles fod ar ben ond byddwn yn ystyried ail roi prydles iddynt pan ddaw atebion i gwestiynau'r Cyngor Tref i law.

4. **Difrod**
   Cafwyd gwybodaeth bod difrod wedi ei wneud i'r polyn fflag gan y gwynt a bod un o wydrau'r lloches bws yn Sgwâr Rawson wedi ei falu.
   Argymell: I adael i gyngor Gwynedd wybod am y difrod hwn a gofyn iddynt eu trwsio cyn gynted â modd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio. I ymestyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r Angry Scones Racing Team i gyfarfod Is-Bwyllgor Mwynderau nos Iau 21ain o Ionawr 2016 am 7.00 o'r gloch.

9467/01/16 <u>IS BWYLLGOR ADNODDAU</u>
Trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod i wneud argymhellion parthed Praesept 2016/2017.

PENDERFYNIAD: I gynnal Is-Bwyllgor Adnoddau nos Fawrth 19eg o Ionawr 2016 am 7.00 o'r gloch yn y Siambr.

9468/01/16 PANEL STAFFIO

Trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I gynnal Panel Staffio nos Fawrth 2ail o Chwefror 2016 am 7.00 o'r gloch yn y Siambr. Bydd y Cynghorwyr Erwyn Jones, Rory Francis a Ronwen D Roberts yn eistedd ar y panel.

9469/01/16 CYFARFOD ANARFEROL O'R CYNGOR TREF

Trefnu dyddiad cyn diwedd Ionawr 2016 i osod y Braesept am y flwyddyn 2016/2017.

PENDERFYNIAD: I gynnal Cyfarfod Anarferol o'r Cyngor Tref i osod y braesept am y flwyddyn 2016 - 2017 nos Fercher 27ain o Ionawr 2016 am 7.00 o'r gloch yn y Siambr.

9470/01/16 **CEISIADAU CYNLLUNIO**

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Ddatgan Diddordeb

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C15/1338/03/LL
   Ymgeisydd Mr & Mrs G McLean
   32 Heol yr Eglwys
   Blaenau Ffestiniog
   Cais i newid defnydd llawr gwaelod o siop i fflat hunan cynhaliol
   Dymunai Gyngor Tref Ffestiniog cael gwybod beth yw polisi Cyngor Gwynedd ar drosi siopau yn fflatiau ar y stryd fawr. Dylai Cyngor Gwynedd ddilyn polisi o wrthod ceisiadau newid defnydd siop i dy neu fflat ar y stryd fawr. Os nid yw hwn yn bolisi, yna ddylai fod yn bolisi er mwyn sicrhau dyfodol ein trefi.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C15/1065/03/LL
   Ymgeisydd Robert Knight
   2 Frongoch
   Cwmbowydd
   Blaenau Ffestiniog
   Cais i ddymchwel estyniad cefn presennol ynghyd a chodi estyniad cefn o'r newydd
   Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/11B
   Ymgeisydd Dŵr Cymru
   Gwaith Trin Dŵr
   Ffestiniog
   Cais i ddymchwel estyniad cefn presennol ynghyd a chodi estyniad cefn o'r newydd
   Caniatáu

PENDERFYNIAD: I argymell fel yr uchod

9471/01/16 GANOLFAN GYMDEITHASOL

Penodi cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymdeithasol.

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Erwyn Jones i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymdeithasol

9472/01/16 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Bedwyr Gwilym

Yn dilyn derbyn nifer o gwynion gan drigolion y Manod, yr wyf yn galw ar Gyngor Tref Ffestiniog i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt osod lloches bws ym Methania er mwyn osgoi defnyddwyr rhag gorfod disgwyl am fysiau yn y glaw. Pe byddai lloches yn cael ei osod, bu'r Cyngor Tref yn ymrwymo i dderbyn cyfrifoldeb am lanhau, gan gynnwys cynnal a chadw'r lloches yn yr un modd a'r llochesi presennol.

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig a holi Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru os fydd yn bosib lleoli lloches bws ym Methania. Cytunodd y Cyngor Tref i ymrwymo i dderbyn cyfrifoldeb am lanhau a chynnal a chadw'r lloches os caiff ei osod.

9473/01/16 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Bedwyr Gwilym

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn nifer o glybiau, mudiadau, a gweithgareddau diwylliannol a hamdden yn ein cymuned. Gyda hynny mewn golwg, 'rwyf yn galw ar y Cyngor Tref i gydnabod ac i ddathlu'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr drwy sefydlu gwobrau 'Gwirfoddolwr y flwyddyn'. Nid yn unig fydd hyn yn dweud diolch, ond yn gyfle hefyd i hybu gwirfoddoli, gan annog eraill i wirfoddoli yn y gymuned.

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig a chaiff ei drafod ymhellach yn Is-Bwyllgor Adnoddau nos Fawrth 19eg o Ionawr 2016.

9474/01/16 RHYBUDD O GYNIGIAD

Gan y Cynghorydd Bedwyr Gwilym

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y llinell rhwng y Blaenau a Thrawsfynydd ym mis Gorffennaf 2015, a'r cwynion cynyddol sydd yn cael ei dderbyn gan drigolion lleol. Yr wyf yn galw ar Gyngor Tref Ffestiniog i lunio holiadur er mwyn canfod barn trigolion yr ardal ar ddyfodol y llinell ac i sicrhau bod pob un annedd o fewn ffiniau'r Cyngor yn derbyn o leiaf un holiadur drwy'r post.

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig a chaiff ei drafod ymhellach yn Is-Bwyllgor Mwynderau nos Iau 21ain o Ionawr 2016. Tybir bod angen rhoi amlen gyda chyfeiriad y Cyngor a stamp ail ddosbarth gyda phob holiadur a gaiff ei yrru allan.

9475/01/16 RAS Y MOELWYN

Trafod i'r Cyngor Tref wneud cais i First Hydro i gael defnyddio argae Stwlan ar gyfer Ras y Moelwyn eleni.

PENDERFYNIAD: I'r Cyngor Tref wneud cais i First Hydro i gael defnyddio argae Stwlan ar gyfer Ras y Moelwyn eleni.

9476/01/16 IECHYD

Nid yw'r Cyngor Tref wedi derbyn ymateb i'w lythyr a anfonwyd ym mis Hydref yn gofyn am gyfarfod lleol gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i yrru at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr unwaith eto i geisio cael trefnu cyfarfod. I holi'r Pwyllgor Amddiffyn os ydynt yn dymuno i'r Cyngor Tref ddanfon eu holiadur allan gyda holiadur parthed y rheilffordd.

9477/01/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Yn dilyn cyfarfod gyda Mwnci Bach yn ddiweddar cafwyd gwybodaeth bod creu'r wefan yn symud ymlaen. Mae dal angen i rai Cynghorwyr ddrafftio gwybodaeth fer amdanynt gan gynnwys eu diddordebau ayb ar gyfer y wefan. Bydd cryn waith angen ei wneud er mwyn sicrhau fod y wybodaeth berthnasol mewn lle.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gofio cynnwys erthyglau Senedd Stiniog y Cyngor sydd yn Llafar Bro ar y wefan. I holi os bydd Mr G T Jones o Bwllheli gyda diddordeb yn ysgrifennu hanes y Cyngor ar gyfer y wefan.

9478/01/16 SGWÂR RAWSON

Cafwyd gwybodaeth nad yw Cwmni Llechwedd wedi gallu cwblhau'r gwaith o osod logo'r Cyngor Tref ar y plac hyd yn hyn. Tybir i'r disc gyda manylion logo'r Cyngor Tref gael ei golli yn ystod gwaith adnewyddu'r felin yn ddiweddar.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth gyda'r Cynghorydd Annwen Daniels i sicrhau bod Cwmni Llechwedd yn derbyn disc arall gyda manylion logo'r Cyngor Tref.

9479/01/16 PARTNERIAETH Y PARC

Cafwyd gwybodaeth bod Partneriaeth y Parc wrthi'n gwneud cais am Faner Werdd i Cadw Cymru'n Daclus a'u bod yn gobeithio derbyn grant bychan ar gyfer plannu caed ffrwythau yn y Parc.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9480/01/16 CAEAU CHWARAE

Mae angen cael tri phris ar gyfer llawr 'wet pour' i gae Tanygrisiau a Chae Baltic oherwydd y gost. Nid oes unrhyw gwmni yn fodlon rhoi pris ar gyfer medr sgwâr ar y we heb wneud ymholiadau pendant. Cafwyd gwybodaeth mai coeden ffawydden sydd ar gae Manod ac iddi fod yn goeden reit fawr. Mae cryn amheuaeth ynglŷn â pherchennog y tir yma gan nad yw'n amlwg yn rhan o dir y cae chwarae. Bu i'r Cynghorydd Rory Francis drafod y goeden gydag un o drigolion cyfagos i geisio datrys hyn ond nid oedd yn llwyddiannus.

PENDERFYNIAD: I wneud ymholiadau penodol er mwyn sicrhau cael tri phris ar gyfer y llawr 'wet pour'. I holi Cyngor Gwynedd parthed perchnogaeth y darn yma o'r cae a theimlwyd na ddylai'r goeden yma gael ei thorri.

9481/01/16 CYNGOR GWYNEDD

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros A Mannau Parcio Ar Y Stryd) (Ardal Meirionnydd) 2016
Rhybuddion Cyhoeddus parthed Gwahardd a Chyfyngu Aros A Mannau Parcio Ar Y Stryd yn yr ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9482/01/16 PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft
Asesiad o Sensitifrwydd a Capasati y Dirwedd
Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft yn ychwanegu at y polisïau sy'n ymddangos yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar 13eg o Orffennaf 2011.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9483/01/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Ni chafwyd adroddiad

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9484/01/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Ni chafwyd adroddiad

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

9485/01/16 THE CLERK

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

9486/01/16 CLERKS AND COUNCILS DIRECT

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

9487/01/16 RHEILFFORDD FFESTINIOG

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.36 y.h.

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 11eg CHWEFROR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 11eg CHWEFROR 2016
AR YR 4ydd CHWEFROR 2016

Swyddfa'r Cyngor
5 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3ES
☎ **01766 832398**
cyngortrefffestiniog@yahoo.co.uk